# Cyflawni newid, mesur effaith?

## Gwella'n barhaus yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan Adran 18(2) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15(2) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Barn yr Archwilydd Cyffredinol | 6 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 16 |
| Atodiadau | 18 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 19 |
| 2 Cyd-destun | 21 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom fwrw golwg ar gamau gweithredu Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) i sicrhau gwelliant parhaus ers yr ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024.

2 Rydym wedi canolbwyntio ar ei gamau gweithredu i weithredu ar y Cylch Gorchwyl a bennwyd ar gyfer y comisiynwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu ar adroddiadau a oedd yn ystyried ei ddiwylliant, gweithrediadau, a threfniadau i sicrhau gwerth am arian. Wrth wneud hyn, fe wnaethom fwrw golwg ar yr amcanion gwella y mae'r Awdurdod wedi'u pennu, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

3 Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar ymateb yr Awdurdod i arolygiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025.

## Pam fod hyn yn bwysig

4 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) rôl hollbwysig i gadw cymunedau'n ddiogel. I wneud hyn, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth sy'n gwella'n barhaus i aros gyfuwch ag arfer esblygol a gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu'n diwallu anghenion newidiol eu cymunedau. Mae hi hefyd yn bwysig bod gwerthoedd ac ymddygiadau'r rhai sy'n darparu gwasanaethau tân ac achub yn adlewyrchu disgwyliadau'r cyhoedd.

5 Fe gyhoeddodd yr Awdurdod Adolygiad Diwylliant Annibynnol ym mis Ionawr 2024 a ddangosodd nad oedd wastad yn cwrdd â'r disgwyliadau hyn. Roedd hyn ar ôl adroddiadau eraill gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru ac Archwilio Cymru a oedd hefyd wedi canfod meysydd i'r Awdurdod wella arnynt.

6 Fe ymyrrodd Llywodraeth Cymru yn yr Awdurdod ym mis Chwefror 2024. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd nad oedd hi'n 'hyderus o allu'r gwasanaeth ynddo'i hun i oruchwylio ei adferiad... Fel gyda'r rheolwyr, ni all aelodau'r Awdurdod fod yr un rhai sy'n achosi problem ac yn ei datrys hefyd'.[1] Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddisodli'r cynghorwyr a oedd yn aelodau o'r Awdurdod â phedwar comisiynydd.

7 Mae gweithredu ar ganfyddiadau'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol ac adroddiadau eraill gan gyrff adolygu allanol yn allweddol i allu'r Awdurdod i ddangos ei fod yn gweithio i sicrhau gwelliant parhaus er budd ei gymunedau.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

8 Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran ymdrin â'i feysydd ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw hi'n glir eto sut y bydd ei weithgarwch gwella'n cael ei ariannu na pha wahaniaeth y mae'n ei wneud i gymunedau lleol.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym yn gwneud tri argymhelliad i helpu'r Awdurdod i wella. Mae a wnelo'r rhain â:

- symleiddio ei gyfeiriad strategol a nodi sut y bydd yn dwyn budd i'w gymunedau;
- costio ei gamau gwella ac adnabod sut y byddant yn cael eu hariannu; a hefyd
- cryfhau sut y mae'n asesu cynnydd tuag at ei nodau a pha un a yw'n dwyn gwerth am arian.

[1] Senedd Cymru, Cofnod y Cyfarfod Llawn, 6 Chwefror 2024

# Barn yr Archwilydd Cyffredinol

Rwyf wedi fy nghalonogi bod yr Awdurdod wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ynghylch ei ddiwylliant a'i berfformiad. Rwyf hefyd yn cydnabod bod hwn wedi bod yn gyfnod anodd i staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth tân ac achub, sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus mor hollbwysig mewn amgylchiadau sy'n aml yn gryn her.

Mae'r Awdurdod wedi gwneud dechrau da ar ei daith wella, ond yn awr mae angen iddo wneud yn siŵr bod y gweithredu yma'n arwain at fanteision go iawn i'w gymunedau lleol ac yn darparu gwerth am arian trethdalwyr. I wneud hyn, mae angen i'r Awdurdod fod yn glir ynghylch ei flaenoriaethau, eu cost, a pha un a yw'r rhain yn arwain at ddeilliannau gwell i bobl de Cymru. Mae angen iddo wneud yn siŵr bod ei gyllid yn cyfateb i'w uchelgeisiau.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn a'i argymhellion yn helpu'r Awdurdod i wneud hyn.



**Catherine Mealing-Jones**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

- Ers mis Chwefror 2024, pedwar comisiynydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru sydd wedi bod yn rhedeg yr Awdurdod. Fe wnaethant ddisodli 24 o gynghorwyr a arferai fod yn aelodau'r Awdurdod.

- 174 – nifer yr argymhellion a gafodd yr Awdurdod o adolygiadau allanol.

- Wyth – nifer y themâu strategol yng Nghynllun Gwella Strategol yr Awdurdod.

- 15 mlynedd – y cyfnod a rychwentir gan Gynllun Gwella Strategol yr Awdurdod.

- £19.4 miliwn – faint y mae'r Awdurdod yn amcangyfrif y gallai ei gostio i gyrraedd ei naw nod trawsnewid.

- £17.6 miliwn – y cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy na chyfyngir arnynt gan y gyfraith a oedd gan yr Awdurdod ar ddiwedd 2024-25.

# Ein canfyddiadau

## Gwybod beth y mae angen iddo wella

10 Rydym yn cydnabod bod gweithgarwch yr Awdurdod wedi cael ei siapio gan Lywodraeth Cymru. Trwy'r cylch gorchwyl a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r comisiynwyr, roedd hwn yn blaenoriaethu'n effeithiol yr hyn y dylai'r Awdurdod ganolbwyntio arno. Mae effaith yr ymyrraeth hon ac adroddiadau allanol, yn enwedig yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol, wedi gwneud y cyfnod hwn yn gryn her i'r Awdurdod hefyd. O ganlyniad, dylid disgwyl bod rhai meysydd ar gyfer gwella wedi datblygu'n fwy na'i gilydd.

## Mae'r Awdurdod yn gwybod ble y mae angen iddo wella ac mae wedi nodi hyn

### Tystiolaeth o beth i'w wella

11 Mae'r Awdurdod wedi canolbwyntio ar ymateb i'r adroddiadau y mae wedi'u cael gan gyrff adolygu allanol. Wrth ddod â chomisiynwyr i mewn, fe gyfeiriodd Llywodraeth Cymru at yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol ac adroddiadau gan Archwilio Cymru a Phrif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru i ddangos bod angen i'r Awdurdod wella. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys 174 o argymhellion i'r Awdurdod.[2] Roeddent yn rhoi cyfarwyddyd clir ar gyfer yr hyn yr oedd angen iddo ei wella.

[2] Fesul ffynhonnell, roedd gan yr Awdurdod 82 o argymhellion o'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol, 87 o argymhellion gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru, a phum argymhelliad gan Archwilio Cymru. Nodir y rhain yn **Atodiad 2**.

12 Mae'r Awdurdod wedi pennu uchelgais i fynd ymhellach na dim ond ymateb i'r argymhellion y mae wedi'u cael. Defnyddiodd swyddogion ganfyddiadau pob adroddiad i ddod o hyd i ragor o feysydd i'w gwella yn ychwanegol at weithredu ar yr argymhellion ynddynt yn unig. Mae'r Awdurdod wedi nodi rhaglen drawsnewid ac iddi naw nod sydd wedi'u bwriadu i helpu'r Awdurdodi i fod yn fwy effeithiol.[3] Mae hefyd yn adolygu ei ddull o reoli risg i adnabod meysydd ar gyfer gwella.

13 Mae'r Awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran dewis cymharu ei hun ag ATAau yn Lloegr i helpu i adnabod ble y mae angen iddo wella. Gwahoddodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i arolygu ei effeithiolrwydd, ei effeithlonrwydd, a'i bobl. Gan bod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn arolygu'r 44 o ATAau yn Lloegr hefyd, fe helpodd hyn yr Awdurdod i ddeall sut yr oedd yn cymharu â llawer o ATAau, ac nid dim ond y ddau ATA arall yng Nghymru. Mae hyn yn dangos ymrwymiad yr Awdurdod i adnabod ei wendidau a gweithredu i ymdrin â hwy.

14 Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi gwneud defnydd llawn o wybodaeth arall a fyddai hefyd yn gallu ei helpu. Mae'r Awdurdod yn cydweithio gydag ATAau eraill ar ystod o fentrau. Fodd bynnag, nid yw wedi dangos sut y mae cymharu ei hun a gweithio gydag ATAau eraill Cymru wedi goleuo ei gynlluniau gwella. Nid yw wedi ystyried canfyddiadau adroddiadau Archwilio Cymru wrth feddwl sut y mae angen iddo wella ychwaith. Yn yr un modd, er ei fod yn eu cael, nid yw wedi defnyddio adroddiadau ar berfformiad a gwybodaeth arall, megis data iechyd a diogelwch, i adnabod meysydd ar gyfer gwella. Canfuom wendidau'n flaenorol hefyd yn null yr Awdurdod o gynnwys cymunedau lleol wrth ddatblygu ei amcanion llesiant. Trwy beidio â thynnu ar amrywiaeth eang o dystiolaeth, ceir risg bod yr Awdurdod yn colli cyfleoedd i adnabod ble a sut y mae angen iddo wella.

[3] Caiff nodau rhaglen drawsnewid yr Awdurdod eu nodi yn **Atodiad 2**.

## Pennu amcanion gwella

15 Mae'r Awdurdod wedi pennu amcanion gwella i fynd i'r afael â'r gwendidau y mae wedi'u canfod. Fe gymeradwyodd Gynllun Gwella Strategol ym mis Mawrth 2025 a oedd yn nodi wyth thema wella ar gyfer y 15 mlynedd nesaf.[4] Fe gymeradwyodd Gynllun Gwella Blynyddol hefyd sy'n nodi'r hyn y bydd yn ei wneud i gyflawni ei themâu bob blwyddyn. Mae'r rhain yn dangos yn glir bod yr Awdurdod wedi rhoi sylw i'r saith agwedd ar wella fel sy'n ofynnol yn ôl y Mesur.

16 Mae'r Awdurdod yn defnyddio dull byrdymor o gynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae'n nodi'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd bob blwyddyn yn hytrach na'u nodi dros oes ei gynllun. Nid yw'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu i'r Awdurdod ei gyflawni dros y 15 mlynedd a gwmpesir gan y cynllun. Mae hyn yn creu risg y bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu datrysiadau byrdymor nad ydynt yn darparu gwerth am arian dros y tymor hwy.

## Mae cyfeiriad strategol yr Awdurdod yn aneglur am nad yw cynlluniau lluosog yn cysylltu â'i gilydd nac yn diffinio sut y byddai llwyddiant yn edrych

17 Mae'r Awdurdod wedi creu cynlluniau lluosog nad ydynt yn cysylltu â'i gilydd. Yn ogystal â'r Cynllun Gwella Strategol, y Cynllun Gwella Blynyddol, a'r nodau trawsnewid, fe gyhoeddodd y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) strategaeth hefyd ym mis Mehefin 2025. [5] Ni wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo strategaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub er mai ef sy'n gyfrifol am bennu strategaeth y sefydliad. Nid oes cysylltiadau eglur rhwng strategaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Cynllun Gwella Strategol, ond mae'r ddau'n cynnwys 'nodau trawsnewid' yr Awdurdod. Mae cynlluniau adrannol yn ceisio cysylltu'r Cynllun Gwella Strategol a strategaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub, ond nid yw'r cysylltiadau wastad yn eglur nac yn hawdd i'w deall. Mae hyn yn golygu nad oes gan yr Awdurdod gyfeiriad strategol eglur.

---

[4] Mae themâu gwella'r Awdurdod wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2**.

[5] Mae'r term 'Gwasanaeth Tân ac Achub' yn golygu'r rhan o'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth ei hun ar gyfer cymunedau. Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am bennu'r strategaeth ar

18 Nid yw'n glir i'r Awdurdod ychwaith pa gynllun sy'n cael blaenoriaeth. Clywsom wahaniaeth barn ynglŷn â pha ddogfen oedd yn darparu'r cyfeiriad strategol allweddol ar gyfer yr Awdurdod. Nid yw'n glir ychwaith sut y mae'r dogfennau hyn yn cysylltu â'i gilydd. Mae gan hyn y potensial i ddrysu'r rhai sy'n gweithio yn yr Awdurdod yn ogystal â chynulleidfaoedd ehangach. Trwy beidio â phennu blaenoriaethau eglur, ceir risg y bydd yr Awdurdod yn canolbwyntio ei adnoddau, o ran amser swyddogion ac arian, yn y meysydd 'anghywir'. Mae hyn yn ei dro'n creu risg na fydd yr Awdurdod yn sicrhau gwerth am arian.

## Nid yw'r Awdurdod yn gwybod faint fydd yn ei gostio i gyflawni ei gynlluniau na sut y bydd yn eu hariannu

19 Nid yw'r Awdurdod wedi nodi'n glir beth yw costau ei holl welliannau arfaethedig. Er enghraifft, nid yw'r un o gynlluniau gwella penodol yr Awdurdod yn nodi faint y byddant yn ei gostio i'w cyflawni. Mae'n disgwyl y bydd gwelliannau arfaethedig yn cael eu hariannu o gyllidebau presennol ei wasanaethau lle gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd. Pan nad yw hyn yn bosibl, gall adrannau ofyn am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Golyga hyn y gallai camau gweithredu gael eu cynllunio heb i gyllid fod yn ei le'n barod. Nid oes gan yr Awdurdod gynllun ariannol tymor canolig ychwaith. Trwy beidio â chostio ei gynlluniau na gwybod a all eu hariannu, mae'r Awdurdod yn cynyddu'r risg na fyddant yn gallu cael eu cyflawni. Mae hyn hefyd yn cynyddu'r risg na fydd yn gallu cyflawni'r gwelliannau y mae wedi eu hadnabod fel y rhai y mae angen iddo eu gwneud.

---

gyfer y gwasanaeth, am ddarparu adnodau, ac am oruchwylio sut y mae'n cyflawni. Yr Awdurdod yw'r corff cyfreithiol ac mae ganddo ddyletswyddau a osodwyd arno mewn cyfraith.

20 Gan nad yw wedi costio ei gynlluniau, mae’r Awdurdod wedi pennu ei gyllideb ar sail ‘busnes fel arfer’. Disgrifiodd swyddogion sut y mae ei waith cynllunio strategol a chynllunio ariannol yn weithgareddau ar wahân ac nad ydynt wedi’u cysylltu â’i gilydd.[6] O ganlyniad fe ddefnyddiodd yr Awdurdod ei gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn ariannol flaenorol i ariannu gwariant ychwanegol nad oedd wedi’i gynnwys yn ei gyllideb. Golyga hyn nad yw wedi meddwl yn llawn faint o gyllid ychwanegol fyddai angen iddo ei godi fel rhan o'r ardoll ar brif gynghorau.[7] Mae hyn yn creu risg y bydd yr Awdurdod yn parhau i ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn a hynny o bosibl mewn modd anghynaliadwy.

21 Lle mae’r Awdurdod wedi ceisio amcangyfrif rhai costau, nid yw’n glir sut y bydd yn eu hariannu. Er enghraifft, fe amcangyfrifodd fod costau cyrraedd ei nodau trawsnewid yn £19.4 miliwn. Mae hyn yn fwy na’r £17.6 miliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy na chyfyngir arnynt gan y gyfraith a oedd gan yr Awdurdod ar ddiwedd 2024-25.[8] O ganlyniad, ceir risg sylweddol na ellir cyflawni ei gynlluniau.

22 Mae’r Awdurdod wedi adnabod rhai arbedion y bydd yn eu cyflawni o’i weithgarwch trawsnewid. Er enghraifft, fe adnabu achos busnes ei Strategaeth ar gyfer Digidol, Data a Thechnoleg rai arbedion a fydd yn lleihau costau ychwanegol ei drawsnewid digidol. Byddai amcangyfrif costau ac arbedion posibl ar gyfer ei holl welliannau arfaethedig yn helpu’r Awdurdod i ddeall a ydynt yn fforddiadwy.

[6] Mae ein hadroddiad ar gynaliadwyedd ariannol yn cynnwys argymhellion bod yr Awdurdod yn ymdrin â’r gwendid hwn. Rydym wedi cynnwys yr argymhellion hyn yn **Atodiad 2**.

[7] Ariennir ATAau Cymru’n bennaf trwy godi ardoll ar brif gynghorau. Cyfrifir hyn trwy rannu’r swm y mae ar yr ATA ei angen i ariannu ei gyllideb (namyn unrhyw grantiau y mae’n disgwyl eu cael neu ddefnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn) rhwng y cynghorau y mae’r ATA yn eu gwasanaethu yn gymesur i’w poblogaeth. Yn Ne Cymru, rhennir costau’r Awdurdod rhwng 10 cyngor.

[8] Rydym yn cyhoeddi’r data yma fel rhan o’n hofferyn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol. Gall ein diffiniad ni o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn wahanol i’r un a ddefnyddir gan gyrff gwahanol.

# Gwybod ei fod yn gwella

## Nid yw'r Awdurdod yn gwybod a yw ei gamau gweithredu wedi gwella gwasanaethau na gwerth am arian

### Adrodd ar berfformiad wrth yr Awdurdod

23 Nid yw'r Awdurdod wedi nodi sut y bydd yn gwybod a yw, a phan fo, ei weithgarwch gwella wedi bod yn llwyddiannus. Nid yw'r Cynllun Gwella Strategol a strategaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub yn nodi sut y bydd yr Awdurdod yn gwybod a yw wedi gwireddu ei uchelgeisiau. Mae'r Awdurdod yn credu y bydd gweithredu'r argymhellion y mae wedi'u cael mewn amryw adroddiadau allanol yn golygu ei fod wedi bod yn llwyddiannus. Mae hefyd yn credu nad oes angen iddo asesu effeithiau gweithredu'r argymhellion hyn gan bod y rhain wedi'u nodi yn yr adroddiadau hynny.

24 Mae adroddiadau'r Awdurdod hefyd yn canolbwyntio ar ei gamau gweithredu ond nid eu heffaith. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Newid Strategol, Trawsnewid a Diwylliant yn cael adroddiadau ar gynnydd o ran cwblhau argymhellion yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol a Phrif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru. Mae pob adroddiad yn nodi'r gweithgarwch ers y diweddariad diwethaf a nifer yr argymhellion a gwblhawyd. Nid ydynt yn darparu unrhyw gyd-destun am, er enghraifft, pa argymhellion sy'n flaenoriaethau, neu sy'n fwy anodd ymdrin â hwy ychwaith.

25 Trwy beidio â nodi'n glir sut y bydd yn mesur ac yn monitro effaith ei gamau gweithredu, mae'n anodd i'r Awdurdod wybod a yw ei gamau gweithredu'n cael effaith gadarnhaol ar ei gymunedau ac yn ei helpu i gyflawni gwerth am arian.

26 Nid yw'r Awdurdod yn nodi fel rheol beth y mae wedi'i wario ar ei weithgarwch gwella. Mae rhai o gostau cyflawni ei raglen drawsnewid ac, er enghraifft, cost y comisiynwyr o'i gymharu â'r Awdurdod blaenorol, wedi'u cynnwys yn ei adroddiadau ariannol. Ond nid yw'n nodi nac yn egluro costau cyffredinol ei weithgarwch trawsnewid yn ei adroddiadau ariannol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anos i'r Awdurdod wybod a yw wedi cyflawni gwerth am arian hefyd.

27 Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi sefydlu prosesau eglur i fonitro cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion o adroddiadau allanol. Mae ganddo ddau Fwrdd Gwella Gwasanaethau i fonitro camau gweithredu – y naill ar gyfer yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol a'r llall ar gyfer adroddiadau Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru. Mae hefyd wedi sefydlu system fonitro i'r Comisiynwyr adolygu a chymeradwyo bod ei ymateb i argymhellion wedi cael ei gwblhau. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i dracio pa argymhellion sydd wedi cael eu cwblhau.

## Mesur perfformiad

28 Mae'r Awdurdod wedi dechrau cryfhau ei drefniadau mesur perfformiad, ond mae'r rhain yn dal i ganolbwyntio i raddau helaeth ar fesur ei weithgarwch yn hytrach na deilliannau. Mae'r Awdurdod wedi creu fframwaith rheoli perfformiad yn ddiweddar i fonitro ei berfformiad. Fel rhan o hyn, mae'r Awdurdod wedi egluro nifer y dangosyddion perfformiad allweddol y mae'n eu mesur ac mae'n eu cysylltu â phob thema wella yn y Cynllun Gwella Strategol. Cyn hyn, nid oedd ond yn casglu'r dangosyddion yr oedd Llywodraeth Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol iddo eu casglu.

29 Fodd bynnag, mae ei ddangosyddion gan mwyaf yn mesur gweithgarwch ac allbynnau'r Awdurdod yn hytrach na'u heffaith. Er enghraifft, argaeledd cyfarpar a nifer y tanau yr ymatebwyd iddynt. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Awdurdod fesur a monitro effaith ei berfformiad a'i weithgarwch gwella.

30 Ar y cyfan, mae gan yr Awdurdod 83 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u gwasgaru'n gyfartal rhwng ei themâu gwella. Er enghraifft, mae gan ei thema 'ymateb' 22 o ddangosyddion tra nad oes gan ei thema 'diogelu a gwella ein hamgylchedd' ond un. Rydym yn cydnabod y gall fod angen i nifer y dangosyddion ar gyfer pob thema amrywio, ac nad yw nifer y dangosyddion ei hun yn arwydd o ddull cryf na gwan. Fodd bynnag, ceir risg bod gan yr Awdurdod ddata mwy cynhwysfawr ar berfformiad ar gyfer rhai themâu na'i gilydd, gan leihau ei allu i fonitro ei berfformiad. Mae'r Awdurdod yn bwriadu i'w Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ddatblygu a chael eu mireinio dros amser.

# Cynnydd a wnaed

## Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau gweithredu arwyddocaol i wella

31 Mae'r Awdurdod wedi cymryd ystod o gamau gweithredu i wella ei berfformiad a'i drefniadau llywodraethu. Mae'r Awdurdod wedi nodi mewn adroddiadau ei fod wedi cwblhau 43% o'r argymhellion a gafodd o adroddiadau allanol.[9] Mae wedi gwneud llawer o gynnydd o ran ymateb i'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol (78% wedi'u cwblhau) a'r adroddiad gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru ar hyfforddiant gweithredol (100%). Rydym yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi cyflwyno llawer o fentrau newydd eraill hefyd, megis rhaglen ddroniau ac ymdrechion i gynyddu ymweliadau diogelwch yn y cartref. Er hynny, nid yw'n adrodd yn gyhoeddus ar ei gynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r cyhoedd ddeall sut y mae'r Awdurdod yn ymdrin â hwy.

32 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o welliannau y mae angen iddo eu gwneud o hyd ac mae'n sefydlu trefniadau i helpu i'w cyflawni. Mae hi'n glir i swyddogion a'r comisiynwyr ble y mae angen iddo wneud gwelliant pellach. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu rhai conglfeini i'w helpu i'w cyflawni, gan gynnwys rhaglen a thîm rheoli prosiect. Mae hefyd wedi creu swydd Cyfarwyddwr Cyllid amser llawn i helpu i gryfhau ei gapasiti ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol. Mae hefyd wedi cymryd camau i wella ei drefniadau llywodraethu. Er enghraifft, mae wedi creu fframwaith llywodraethu sy'n nodi sut, ble, a pham y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae hefyd wedi comisiynu ymchwil gan brifysgol i greu cyfansoddiad gwell.

33 Mae gwybod yn glir pa gamau gweithredu fydd eu hangen yn y dyfodol, a sefydlu trefniadau i'w cyflawni, yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr Awdurdod yn sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol.

---

[9] Darperir dadansoddiad o'r argymhellion a gwblhawyd yn **Atodiad 2**.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Awdurdod symleiddio ei ddull cynllunio strategol i wneud y canlynol yn glir, ac yna eu cyfleu i randdeiliaid mewnol ac allanol:

**1.1** ei gyfeiriad a blaenoriaethau strategol (**paragraff 17**);

**1.2** sut y mae ei amryw gynlluniau a strategaethau'n cysylltu â'i gilydd (**paragraffau 17 ac 18**); ac

**1.3** sut y bydd ei amryw gynlluniau a strategaethau'n cael effaith gadarnhaol ar gyfer pobl De Cymru dros y tymor hwy (**paragraffau 16 i 18**).

**A2** Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni ei gamau gwella dylai'r Awdurdod:

**2.1** sicrhau ei fod yn deall yr adnoddau y mae eu hangen i'w cyflawni (**paragraffau 19 i 22**); a

**2.2** sicrhau bod ei gamau gwella'n gydnaws â'r adnoddau sydd ar gael iddo (**paragraffau 19 i 22**).

Wrth ymdrin â'r argymhelliad hwn, dylai'r Awdurdod ystyried yr argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad cynaliadwyedd ariannol (**Atodiad 2**).

**A3** Er mwyn ei helpu i wybod a yw'n cyflawni gwelliant parhaus a gwerth am arian, ac i ategu atebolrwydd cyhoeddus am hyn, dylai'r Awdurdod:

**3.1** nodi effaith fwriadedig ei weithgarwch gwella (**paragraffau 16 a 29**);

**3.2** nodi sut y bydd yn **mesur**, ac yna'n monitro, effaith ei weithgarwch gwella (**paragraffau 23 i 25 a 29 i 30**);

**3.3** adrodd yn gyhoeddus ac yn rheolaidd ar gynnydd tuag at yr holl argymhellion allanol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, ac effaith ymdrin â hwy (**paragraffau 25 i 27 a 31**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar drefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwerth am arian a gwelliant parhaus yn dilyn ymyrraeth Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024. Fe ganolbwyntiom ni ar ymateb yr Awdurdod i'r Cylch Gorchwyl a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y pedwar comisiynydd a benododd. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu ar ganfyddiadau:

- adroddiadau gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru;
- yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol; ac
- adroddiadau gan Archwilio Cymru.

Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar ymateb yr Awdurdod i'r adroddiad arolygu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ym mis Mai 2025.

Ni wnaethom ailadrodd gwaith adroddiadau blaenorol ond fe wnaethom fwrw golwg ar y camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb iddynt.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Daethom i'n casgliadau ynghylch trefniadau'r Awdurdod trwy ateb tri chwestiwn. Yn gyntaf, fe ofynnom ni a yw'r Awdurdod yn gwybod beth y mae angen iddo ei wella. Yn ail, a oes gan yr Awdurdod brosesau i wybod a yw'n gwella. Yn drydydd, fe wnaethom ystyried a yw'r Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni ei welliannau arfaethedig.

## Meini Prawf

Rydym yn defnyddio’r meini prawf i’n helpu i ateb ein cwestiynau am drefniadau’r Awdurdod. Maent yn ein helpu i ddeall sut y dylai neu y gallai trefniadau edrych yn y cyd-destun.

Fe wnaethom lunio ein meini prawf trwy fwrw golwg ar ganllawiau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaethom hefyd dynnu ar ein gwybodaeth ni am y sector, yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a gwerth am arian. Rydym yn datblygu ein gwybodaeth am ATAau trwy gwblhau archwiliadau o berfformiad ac archwiliadau ariannol.

# Dulliau

Mae ein canfyddiadau’n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gydag uwch swyddogion a thri o gomisiynwyr yr Awdurdod. Fe gwblhaom ni’r gwaith hwn ochr yn ochr â’n harchwiliad o drefniadau’r Awdurdod i sicrhau gwerth am arian wrth gynllunio i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Fe wnaethom hefyd dynnu ar ganfyddiadau o’r gwaith hwn, lle’r oedd yn berthnasol.

# 2 Cyd-destun

## Adroddiadau a gafodd yr Awdurdod a'r cynnydd y mae wedi adrodd arno

Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r adroddiadau a'r argymhellion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel y rhesymau a achosodd iddi ymyrryd a phenodi comisiynwyr. Hefyd, mae'n cynnwys adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi y gofynnodd yr Awdurdod amdano yn dilyn yr ymyrraeth.

Mae hefyd yn cynnwys nifer yr argymhellion yr oedd yr Awdurdod wedi nodi mewn adroddiadau ei fod wedi eu cwblhau ar adeg drafftio'r adroddiad hwn. Nid ydym wedi adolygu'r dystiolaeth y mae'r Awdurdod yn credu ei bod yn dangos ei fod wedi gweithredu ar yr argymhellion.

Mae'n dangos bod yr Awdurdod wedi gwneud mwy o gynnydd ar yr argymhellion o'r Adroddiad Diwylliant Annibynnol ac adolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru o hyfforddiant gweithredol. Gan nad yw'r Awdurdod yn adrodd ar ei gynnydd o ran gweithredu ar argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF a'n hargymhellion ni, mae'n anodd asesu'n llawn pa gynnydd y mae wedi'i wneud ar y cyfan.

### Arddangosyn 1: adroddiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod a'r cynnydd o ran eu rhoi ar waith

| Adroddiad | Argymhellion a wnaed | Argymhellion a gwblhawyd | |
|---|---|---|---|
| Archwilio Cymru – Gostyngiad mewn Galwadau Tân Diangen<br>Mai 2023 | 5 | 5 | 100% |

| Adroddiad | Argymhellion a wnaed | Argymhellion a gwblhawyd | |
|---|---|---|---|
| Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru – Dysgu o argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell<br>Chwefror 2021 | 71 | 29 | 41% |
| Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru – Ehangu rôl diffoddwyr tân<br>Rhagfyr 2021 | 4 | 3 | 75% |
| Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru – Hyfforddiant gweithredol<br>Hydref 2022 | 6 | 6 | 100% |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi – Adroddiad arolygu<br>Mai 2025 | 49 | 21 | 43% |
| Awdurdod Tân ac Achub De Cymru – Adolygiad diwylliant annibynnol<br>Ionawr 2024 | 82 | 70 | 85% |
| Cyfanswm | 217 | 134 | 62% |

Ffynhonnell: ATA De Cymru

Nodyn: Rydym wedi cyfrif achosion dros bryderu a meysydd ar gyfer gwella fel argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Nid yw'r tabl yn cynnwys adroddiadau gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru ac Archwilio Cymru y mae'r Awdurdod wedi'u cael ers i'r ymyrraeth ddechrau. Y rheswm dros hyn yw'r amser cymharol fyr y mae wedi'i gael i ymateb i'w canfyddiadau.

Cafodd yr Awdurdod arolygiad pellach o'i ystafell rheoli tân gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru ym mis Rhagfyr 2025. Gan bod yr Awdurdod yn rhannu ystafell rheoli tân ar y cyd gydag ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'r canfyddiadau'n berthnasol i'r ddau ATA. Fe wnaeth yr adroddiad bum argymhelliad.

Mae hefyd wedi cael chwe argymhelliad yn rhagor gan Archwilio Cymru ers dechrau'r ymyrraeth. Rydym wedi cyflwyno'r adroddiadau ac argymhellion canlynol:

- llywodraethu ATAau (Medi 2024) – un argymhelliad;
- pennu amcanion llesiant (Mai 2025) – tri argymhelliad; ac
- atal tanau mewn cartrefi risg uchel (Gorffennaf 2025) – dau argymhelliad.

# Argymhellion ynghylch cynaliadwyedd ariannol

Fe wnaeth ein hadroddiad ar gynaliadwyedd ariannol dri argymhelliad, sef:

- Dylai'r Awdurdod wella ei ddealltwriaeth am ei sefyllfa ariannol i oleuo datblygiad strategaeth ariannol gynaliadwy. Dylai hyn gynnwys costio ei weithgarwch trawsnewid arfaethedig a meincnodi tybiaethau ariannol gyda sefydliadau eraill.
- Dylai'r Awdurdod ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig gynaliadwy i roi cymorth i gyflawni ei amcanion corfforaethol a'i gyfrifoldebau statudol.
- Er mwyn galluogi goruchwyliaeth effeithiol i ddigwydd ac ategu prosesau penderfynu, dylai'r Awdurdod adrodd yn rheolaidd ar oblygiadau ei sefyllfa ariannol ar gyfer cyflawni ei amcanion corfforaethol.

## Themâu gwella

Mae gan yr Awdurdod wyth thema wella, sef:

- gweithio'n effeithiol;
- atal;
- diogelu;
- ymateb;

- diogelu a gwella'r amgylchedd;
- cyfathrebu ac ymgysylltu (mewnol, allanol, ymgynghori, partneriaeth gymdeithasol);
- gwerthfawrogi a datblygu ein pobl; a hefyd
- trawsnewid trwy arloesi.

## Nodau'r rhaglen drawsnewid

Mae rhaglen drawsnewid yr Awdurdod yn cynnwys naw nod, sef:

- cyfathrebu ac ymgysylltu;
- trawsnewid digidol;
- amrywiaeth, cynhwysiant, cydlyniant a thegwch;
- moeseg, gwerthoedd ac ymddygiadau;
- llywodraethu a strategaeth;
- arweinyddiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau;
- amgylchedd diogel a chadarnhaol; a
- rheoli talent.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud eu gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.